



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

11,501



Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

23,990

Gwasanaeth Cyngori



Derbyniodd 92 unigolyn gefnogaeth un i un drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 3 Menter ar y Cyd sy'n cynnwys 6 unigolyn gefnogaeth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarpariaeth y gwasanaeth Cyngori:

“Defnyddiol iawn er mwyn ein cynorthwyo i ddeall y gwahanol agweddau'n ymwneud â newid cyfeiriad y busnes.”

“Roedd yr holl gyngor yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ein busnes, diolch.”

Rhwydwaith Arddangos

Bodwi: Adolygu'r fenter magu teirw biff trwy edrych ar fuddion posibl defnyddio cnydau a dyfir gartref

Prif nod y prosiect hwn ar safle arddangos Bodwi yw asesu effaith cynhyrchu porthiant gartref ar broffidioldeb y fenter magu teirw biff, gan leihau'r ddibyniaeth ar ddwysfwyd a brynir i mewn.

Ar hyn o bryd, mae'r lloi gwryw yn cael eu magu fel teirw biff, gyda chyfran fechan yn cael eu cadw fel teirw stoc, a'r gweddill yn cael eu pesgi gartref neu'n cael eu hanfon i uned besgi oddi ar y fferm. Fodd bynnag, mae'r fenter angen swm sylweddol o fewnbynau a brynir i mewn i besgi'r teirw yn 16 mis.

Cafodd y lloi gwryw eu diddyfnu ym mis Hydref 2019. Ym mis Ionawr 2020, cafodd cyfanswm o 34 o deirw eu dethol i gael eu pesgi gartref ar ddietydd o ddwysfwyd ad-lib a gwellt, gan sicrhau cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) o 1.9kg rhwng diddyfnu a diwedd mis Ebrill.

Cafodd 40 o deirw pellach eu hanfon i uned besgi biff a'u bwyso ar Ddogn Cymysg Cyfan. Yn yr uned besgi biff, roedd cymeriant bwyd yn cael ei bwyso'n ddyddiol, ac roedd pris yn cael ei godi yn ôl cyfanswm cymeriant. Yn ogystal, roedd pris dyddiol sefydlog yn cael ei godi fesul anifail ar gyfer costau gwellt a llafur. Mae cynnydd pwysau byw'r teirw biff a'r costau cynhyrchu wedi cael eu cyfrifo ar gyfer y ddwy system yn Ffigur 1 (yn seiliedig ar gostau porthiant, gwellt a llafur), gan ddangos arbediad o £0.11/kg cynnydd pwysau byw drwy besgi'r biff gartref o'i gymharu â'r uned besgi.

Ffigur 1. Cynnydd pwysau byw teirw biff a chostau cynhyrchu

Costau Amrywiol	Pesgi gartref	Uned besgi biff
Pwysau byw (ar y dechrau)	403 kg	342 kg
Pwysau byw (yn y lladd-dy)	662 kg	658 kg
Cynnydd pwysau byw cyfartalog fesul anifail	259 kg	312 kg
Cyfanswm y gost	£1.62/kg LWG	£1.73/kg LWG

Mae oddeutu 11 hectar o haidd gwanwyn wedi cael ei hau a'i gynaeafu. Bydd yr haidd yn cael ei drin fel Alkagrain i'w borthi dros y gaeaf, gyda mewnbwn gan faethegydd i ganfod diet addas ar gyfer pesgi. Mae'r camau nesaf yn cynnwys gwerthuso costau cynhyrchu'r system borthiant a dyfir gartref dros y gaeaf, yn ogystal â monitro perfformiad y teirw.

Bryn: Gwella perfformiad y fenter sugno a'r fenter biff – dull fferm gyfan

Un agwedd benodol ar y prosiect hwn yw ceisio canfod dichonolrwydd pesgi teirw o'i gymharu â'u gwerthu fel anifeiliaid stôr. Mae'r fferm mewn ardal sydd â risg uchel o TB, ac roedd Huw yn awyddus i archwilio'r opsiwn o besgi'r teirw i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â derbyn prawf TB positif. Cafodd 15 tarw eu cadw'n gyflawn a'u porthi ar ddietydd o ddwysfwyd a brynwyd i mewn, ceirch a dyfwyd gartref a haidd wedi'i rollo o fis Tachwedd 2019.

O'i gymharu â'r £13,980 y byddai'r anifeiliaid hyn wedi eu cael fel anifeiliaid stôr, gan gyfrif gwerth y gwellt a werthwyd a'r bwyd a fwytawyd, cynhyrchwyd £1,600 yn ychwanegol drwy eu magu fel teirw. Ar fferm Bryn, roedd teirw'n derbyn 1.2 tunnell o borthiant y pen o'i gymharu â tharged y diwydiant o 1.7 tunnell y pen. Arweiniodd hyn at bwysau byw o 620kg wrth fynd i'r lladd-dy a phwysau carcass cyfartalog o 344kg, gyda chanran lladd allan o 55%. Er bod y rhain ychydig yn is na thargedau'r diwydiant, roedd yr elw yn dal i fod yn gadarnhaol ac roedd 93% o'r carcassau'n bodloni manylebau'r lladd-dy.

O'r 75 llo a anwyd ar fferm Bryn y gwanwyn hwn, roedd 34 ohonynt yn wryw. Nawr bod y teirw magu wedi cael eu tynnu o'r fuches, bydd y lloi gwryw hyn yn cael eu bwydo ar gymysgedd o geirch a haidd wedi'i roli a dyfwyd gartref. Y nod yw ceisio sicrhau trosiant bwyd effeithlon gan fod y teirw'n cael eu cyflwyno i ddwysfwyd ar oedran is.

Amcangyfrifir fod defnyddio ddwysfwyd yn strategol ar fferm Bryn yn cynnig enillion blynyddol o +£1,988, gan ystyried y cynnydd pwysau ychwanegol sy'n gyfwerth â £1,700 rhwng 34 tarw, yn ogystal ag arbedion o £908 ar gyfer siediau. Mae'r cyfanswm hefyd yn ystyried colledion o £620 drwy fwydo haidd wedi'i rollo a cheirch yn gynharach yn y tymor.



Ffigur 2. Gwartheg yn pori ar system gylchdro ar safle arddangos Bryn.

Gweminarau

18/08/2020: Awgrymiadau ariannol da ar gyfer ffermwyr

Yn ystod y weminar hon, bu Iorwerth Williams o gwmini cyfrifwyr Dunn & Ellis yn rhoi cyngor ac awgrymiadau ynglŷn ag adolygu cyllid busnesau fferm, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pwysigrwydd edrych ar y fferm fel busnes ac nid fel ffordd o fyw
2. Sut i ddadansoddi'r cyfrifon y byddwch chi'n eu derbyn gan eich cyfrifydd
3. Sut i gadw cofnod ar wahân o'ch costau cynhyrchu defaid/gwartheg
4. Meddylwch ddwywaith cyn prynu peiriant newydd – cymharwch y prisiau gyda ffioedd contractwyr, ac ystyriwch beth fyddai orau
5. Beth fyddai'r goblygiadau ariannol ar gyfer ffermio cyfran / gosod tir o'i gymharu â chadw anifeiliaid eich hun



20/10/2020: Sut lwyddodd un busnes arallgyfeirio i ddod yn enwog ar draws y byd!

Roedd y weminar hon yn rhan o'r Wythnos Arloesi ac Arallgyfeirio rithiwr lle bu Cyswllt Ffermio yn ymuno gyda Zip World, atyniad twristiaeth llwyddiannus yng Ngogledd Cymru sy'n adnabyddus ar draws y byd. Rhoddodd Cyfarwyddwr Masnachol Zip World, Andrew Hudson, gyflwyniad ar y busnes gan drafod:

1. Stori Zip World – o'r dyddiau cynnar hyd heddiw
2. Cyraeddiadau mwyaf nodedig Zip World
3. Unrhyw heriau ar hyd y ffordd – gan gynnwys y tywydd a COVID-19.



Grwpiau Trafod



Ymunodd Tom Greenham o gwmi Advance Milking â grŵp trafod y de orllewin i drafod sut i wneud y gorau o ddata cofnodi llaeth.

Mae pob aelod o'r grŵp yn cadw rhyw fath o gofnodion llaeth, a diben y cyfarfod hwn oedd darparu gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd gorau o ddechongli'r data, sut i adnabod unrhyw dueddiadau neu batrymau a sut i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau y mae'r data yn eu hamlygu.

Dechreuodd Tom drwy amlinellu pwysigrwydd cofnodi achosion mastitis clinigol, gan fod y data hwn, ynghyd â data cyfrif celloedd somatig, yn rhoi gwell darlun o'r hyn sy'n digwydd ar y fferm a sut i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â sut mae aelodau o'r grŵp yn cofnodi eu data ar hyn o bryd a'r gwahanol becynnau meddalwedd sydd ar gael.

Yna, bu Tom yn trafod pwyntiau ynglŷn â'r hyn y gall data cofnodion llaeth ei ddangos i ffermwyr, a bu'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Pathogenau sy'n dominyddu
- Grwpiau o wartheg risg uchel
- Cyfnodau heriol o ran rheolaeth
- Tymhorau risg uchel

Mae'r wybodaeth uchod yn galluogi ffermwyr i ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella.

Cafodd rhai setiau data enghreifftiol eu dadansoddi gan gynnwys y set data gan un o aelodau'r grŵp, a bu Tom yn hwyluso trafodaeth yn ymwneud â'r pwyntiau canlynol yn y setiau data:

- A oes unrhyw broblemau?
- Pa batrymau, os o gwbl, sydd i'w gweld?
- A oes unrhyw frig mewn achosion mastitis a chyfrif celloedd somatig uchel?
- Rhesymau posibl am yr uchod e.e. lloia, tywydd, siediau
- Pa grŵp o wartheg sy'n peri'r risg fwyaf h.y. heffrod neu wartheg hŷn?

Trafodwyd mastitis a chyfrif celloedd somatig uchel mewn heffrod, a rhoddodd Tom enghreifftiau o ffermwyr a oedd wedi bod yn cael problemau gyda hyn yn y gorffennol, ond mae hyn bellach wedi gwella gan ddefnyddio seliwr tethi cyn lloia ar heffrod a oedd yn lloia am y tro cyntaf. Yna, trafodwyd therapi buchod sych dethol mewn manylder, ynghyd â phwysigrwydd cofnodi achosion mastitis.

Agrisgôp

Gan weithio gyda'i gilydd ar ffurf grŵp, gall aelodau Agrisgôp ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad at gyngor arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfyw ar eu cyfer eu hunain, eu teuluoedd a'u busnesau.

67 GRŴP GWEITHREDOL gyda **545** AELOD

yn mynychu cyfanswm o **112** CYFARFOD YN YSTODY CYFNOD HWN

Addysgu defnyddwyr	Cadwyn gyflenwi llaeth
Arallgyfeirio	Bocsys cig

Mentora

541 O BOBL WEDI CAEL EU MENTORA gyda **27** PERSON NEWYDD WEDI CAEL EU MENTORA YN YSTODY CYFNOD HWN

Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

Rheoli coetir	Olyniaeth
Iechyd a Diogelwch	Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Cynllun Datblygu Personol

CRÛWYD **165** CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL YN YSTODY CYFNOD HWN



Cymorthfeydd




CYNHALIWYD **26** gyda **182** O FYNICHWYR



O FYNICHWYR

Graff yn dangos y busnesau a fynychodd y cymorthfeydd yn ôl eu prif sectorau



Adborth gan fuddiolwyr:

"Gwasanaeth defnyddiol yn ystod cyfnod anodd."

"Ymgynghoriad defnyddiol iawn sydd eisoes wedi arbed tipyn o arian i mi. Edrych ymlaen at ymweliad fel rhan o'r gwasanaeth cynghori i gwblhau mwy o waith manwl."

"Byddem yn argymhell y pwnc yma a'r dull trafod gydag eraill. Roedd y dull un i un yn rhwydd iawn ac fe wnaethom ni drafod nifer o bynciau o fewn cyfnod byr."

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

ADNODDAU DYNOL AR Y FFERM	MEINCNODI AR Y FFERM
CYNLLUNIO A CHYLLID	TAW

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Marchnata eich Busnes	16
Cynllunio a Datblygu Busnes	15
Cadw Llyfrau	4
Iechyd a Diogelwch Amaethyddol – Paratoi ar gyfer Archwiliad	2
Gofalu am eich Busnes Eich Hun – Gweithdy 1	3

Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cwrs hyfforddi 6 wythnos o hyd = 4 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Hhyfforddiant un-i-un = 39 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Gweithdai = 189 wedi mynychu

Roedd themâu'r gweithdai yn cynnwys:

Marchnata dros e-bost	Hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol
Storio data yn ddiogel yn y cwmwl	Adnoddau a thechnegau manwl gywir ar gyfer rheoli stoc

